

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Tân

Mehafin 2020

## 1. Y cefndir

### Bil Diogelwch Tân Llywodraeth y DU

1. Cafodd Bil Diogelwch Tân Llywodraeth y DU (y Bil)<sup>1</sup> ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth 2020. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.
2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi mai ei ddiben yw sicrhau bod y Gorchymyn Diogelwch Tân yn glir yn yr ystyr ei fod yn gymwys i waliau allanol (ac unrhyw beth sydd ynghlwm wrthynt sy'n cynnwys cladin a balconïau) a drysau mynedfa fflatiau i adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.<sup>2 3</sup>
3. Mae'r Bil yn un rhan o'r ymateb i wella diogelwch adeiladau ar ôl y tân yn Nhŵr Grenfell ym mis Gorffennaf 2017.

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn ei chymhwysedd.
5. Ar 30 Ebrill 2020, gosododd Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd<sup>4</sup> mewn perthynas â'r Bil.

<sup>1</sup> Bil Diogelwch Tân (HC Bill 121), fel y'i cyflwynwyd.

<sup>2</sup> Bil Diogelwch Tân: Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2020

<sup>3</sup> Diwygiodd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn Diogelwch Tân fel y'i gelwir) y gyfraith sy'n ymwneud â diogelwch tân mewn adeiladau annomestig.

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Diogelwch Tân, Ebrill 2020



**6.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 18 Mehefin 2020.<sup>5</sup>

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

---

**7.** Mae paragraffau 8 a 9 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau y bydd angen cydsyniad ar eu cyfer.

**8.** Mae Atodiad A i nodiadau esboniadol y Bil yn rhestru'r cymalau y mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad ar eu cyfer.

**9.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau yng nghymalau 1, 2 a 3.

Cymal 1 (Mangre y mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân ("y Gorchymyn") yn gymwys iddi)

---

**10.** Mae'r ddarpariaeth hon yn gwneud diwygiadau i'r Gorchymyn i egluro ei fod yn gymwys pan fo'r fangre yn adeilad sy'n cynnwys dwy neu ragor o setiau o fangreoedd domestig, i:

- strwythur a waliau allanol yr adeilad (sy'n cynnwys drysau a ffenestri ac unrhyw beth sydd ynghlwm wrth y waliau allanol, megis cladin, inswleiddio, gosodiadau a balconïau) ac unrhyw rannau cyffredin;
- drysau rhwng mangreoedd domestig a rhannau cyffredin.

Cymal 2 (Pŵer i newid mangre y mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys iddi) (ac eithrio cymal 2(2) a 2(7))

---

**11.** Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i'r "awdurdod perthnasol" wneud rheoliadau i ddiwygio'r Gorchymyn at ddiben newid neu egluro'r fangre y mae'n gymwys iddi. Bydd defnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Diffinnir yr awdurdod perthnasol fel yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â mangreoedd yn Lloegr a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru.

Cymal 3 (Rhychwant, cychwyn a theitl byr)

---

**12.** Mae cymal 3(2)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gychwyn cymal 1 o'r Bil (sy'n gwneud y gwelliannau gweithredol i ymestyn cwmpas y Gorchymyn) mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn galluogi'r

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Busnes, Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Tân, Mai 2020

darpariaethau i ddod i rym fel yr ystyrir ei bod yn briodol ar gyfer mangreoedd yng Nghymru. Nid oes gweithdrefn yn gymwys i reoliadau o'r fath.

**13.** Mae paragraffau 10 i 12 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**14.** Mae'r Memorandwm yn nodi'r canlynol:

“Nid oes lle yn rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ar y materion hyn, ac nid oes unrhyw Fil yn y rhaglen y gellid ychwanegu darpariaethau o'r fath ato.”<sup>6</sup>

**15.** Daw'r Memorandwm i'r casgliad a ganlyn:

“Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU [gan y b]ydd yn gwneud newidiadau synhwyrol a phwysig i'r gyfraith diogelwch tân yn llawer cynt nag y gellid ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru.”<sup>7</sup>

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**16.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 1 Mehefin 2020.<sup>8</sup>

### Ein barn ni

**17.** Rydym yn cydnabod bod y Bil yn un rhan o'r ymateb i wella diogelwch adeiladau ar ôl y tân yn Nhŵr Grenfell ym mis Gorffennaf 2017.

**18.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch. Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam y mae'n briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil yn ei barn hi.

**19.** Rydym yn croesawu defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y pŵer gwneud rheoliadau sydd wedi'i gynnwys yng nghymal 2.

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 12

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 15

<sup>8</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaethol Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 1 Mehefin 2020](#)